Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog.

Cofnodion cyfarfod brys o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 16eg EBRILL 2019.

1 Presennol: Cynghorwraig Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd)
Cynghorwyr Miss Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a
Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Raymond Evans & Ian Owen

3 CROESO.

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
3.2 Nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

4 CAIS CYNLLUNIO LLAWN AR GYFER ADDASU & EHANGU YN CYNNWYS YMESTYN MAES PARCIO YN SAFLE 2-2A STAD DIWYDIANNOL Y GAERWEN – FPL/2019/69

4.1 Croesawyd Mr Peter Moore a Mr Alex Andrews o Gwmni Joloda Hydrarol i'r cyfarfod ac fe cafwyd cyflwyniad cryno o hanes y Cwmni a manylion cynllun datblygu cynllunio dan sylw ar y safle yn Stad Diwydiannol. Nodwyd nad oedd ymestyn y maes parcio yn rhan o'r cynllun bellach

4.2 Cafodd pob aelod y cyfle i ofyn cwestiynnau perthnasol ac fe ddiolchodd y Cadeirydd iddynt am ddod i gyfarfod yr aelodau.

4.3 Penderfyniad – Dim sylwadau a cefnogi'r cynllun.

5 CAIS CYNLLUNIO LLAWN CODI UNED DIWYDDIANNOL NEWYDD AR DIR YN UNED 10B – M & G INDUSTRIAL UNITS, GAERWEN – FPL/2019/82.

5.1 Gofynwyd wneud sylwadau a phryderon ynglyn a risg gorlifo oherwydd lleoliad y safle a oedd o fewn tafliad carreg i ffos agos ac nid oedd unrhyw ystyried parcio ar gyfer cerbydau gweithwyr y busnes.

6 Clowyd y cyfarfod am 8:00yh.

Arwyddo…….CADEIRYDD…..……Dyddiad.